# ESTHER



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Yr wythnos hon byddwn yn astudio stori Esther allwch ffeindio yn llyfr Esther. Roedd Esther yn byw pan oedd yr Iddewon wedi eu halltudio i Persia. Rhai o'r prif bwyntiau byddwn yn dysgu yw—

- Mae Duw bob amser yn gweithio hyd yn oed pan nad ydym yn Ei weld.
- Mae Duw yn gwybod cynlluniau'r drygionus a bydd yn eu barnu.
- Mae Duw yn defnyddio pobl gyffredin am bethau syfrdanol.
- Rydym angen ffydd i siarad am Dduw pan mae'n gofyn i ni.

## Cynllun y wers

Atgoffwch y plentyn pan oedd Esther yn byw, roedd ei bobl mewn caethiwed.  Siaradwch am ystyr caethiwed a'i fod yn golygu nad oeddynt yn medru mynd ble roeddent eisiau a'u bod yn byw mewn gwlad ymhell o'u gwlad eu hunain. Pwyntiwch allan bod Esther yn ferch Iddewig gyffredin.

Siaradwch am fel mae gan Dduw gynllun hyd yn oed pan nad ydym yn medru ei weld. Dewiswch lun mawr efallai o galendr. Un sydd wedi chwyddo byddai gorau. Torrwch dwll bach iawn allan o ddarn o bapur tew. Heb i'r plentyn weld, gosodwch y papur gyda'r twll dros y llun mawr. Gofynnwch i'r plentyn os ydy'n gwybod beth yw'r llun. Gadewch iddo ddyfalu. Ar ôl pob dyfaliad, torrwch y papur a gwnewch y twll ychydig yn fwy nes i'r plentyn ddyfalu beth yw'r llun. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis llun bydd y plentyn yn deall. I blant iau byddwch efallai eisiau cyflymu'r broses trwy wneud y twll yn fwy yn gyflymach. I blant hyn gallwch efallai dewis gwneud mwy na un llun.

Wrth i chi chwarae'r gêm lluniau, siaradwch am y ffaith ein bod fel bodau dynol dim ond yn gweld darn bach iawn o beth sy'n digwydd. Pwyntiwch allan bod Duw yn medru gweld y llun i gyd ar yr un amser. Siaradwch am sut mae hyn yn wir i Gristnogion sy'n ufuddhau i Dduw ac i bobl ddrwg sy'n ceisio cuddio'r pethau drwg maent yn gwneud. Atgoffwch y plentyn, er efallai rydym yn meddwl bod rhywbeth drwg wedi digwydd, mae Duw yn ei feddwl am ddaioni. Darllenwch Genesis 50:20 gyda'ch gilydd ac, os yn bosib, ei roi ar gof.

Siaradwch am sut mae Duw yn medru defnyddio pobl gyffredin pan maent yn dilyn ei arweiniad. Meddyliwch am amser pryd efallai agorodd Duw'r drws i chi dystiolaethu. Atgoffwch y plentyn nad oes rhaid i rywun fod yn gyfoethog neu'n enwog i wneud beth mae Duw yn gofyn. Mae Duw yn bles pan mae pobl yn dilyn Ei air. Chwaraewch y gêm "Simon Says". Siaradwch gyda'ch plentyn am sut, yn union fel yn y gêm, rhaid i ni wneud pethau pan mae Duw yn dweud.

Os yw'r plentyn yn ddigon hen, gallwch chwarae gêm lle cynigwch siawns i'r plentyn ganfod os yw rhywbeth yn beth mae Duw yn dweud. Er enghraifft, "mae Duw yn dweud ufuddhewch eich rhieni." Gofynnwch i'r plentyn os dywedodd Duw hynny ai pheidio. Gallwch hefyd ddweud, "Mae Duw yn dweud bod dwyn yn iawn." Gadewch i'r plentyn ddewis os yw'n meddwl dywedodd Duw hynny ai pheidio. Wedyn gallwch siarad am ddewisiadau'r plentyn ac os oeddynt yn gywir ai pheidio.

Meddyliwch am gyfle pan allwch chi a'ch plentyn siarad allan dros Dduw. Efallai lliwio lluniau gydag adnodau arnynt i'w rhoi i ffrind neu aelodau o'r teulu. Gallwch hefyd efallai dewis i greu cardiau Nadolig gydag adnodau neu luniau o'r enedigaeth i atgoffa pobl am wir ystyr y Nadolig. Efallai gallwch wneud rhywbeth i Gartref Henoed neu ryw siawns arall i rannu Gair Duw.

Rhannwch fel oedd Esther yn barod i golli ei bywyd i achub bywydau ei bobl. Eglurwch sut roedd yr Iesu wedi rhoi Ei fywyd fel ein bod yn medru cael bywyd tragwyddol.

Gweddïwch gyda'ch plentyn a diolchwch i Dduw bod ganddo gynllun ym mhopeth. Gofynnwch Iddo eich helpu i'w wasanaethu'n well ac i ddweud y Newyddion da i bobl eraill.

© 2025 truewaykids.com



Roedd Esther yn ymddiried yn Nuw, a defnyddiodd Duw hi i achub ei bobl rhag cynllun drygionus Naman.

Roedd Esther yn brydferth ar y tu mewn a’r tu allan.

Rhoddodd y brenin swydd Naman i Mordecai.

Dathlodd yr Iddewon i gyd oherwydd bod Duw wedi eu hachub.



# Esther



Roedd brenin Persia eisiau gwraig newydd. Dywedodd ei ymgynghorydd, Haman, wrtho am edrych trwy’r holl wlad a dewis y merched mwyaf prydferth.

Roedd Esther yn eneth brydferth oedd yn byw gyda’i hewythr Mordecai.

Pan welodd weision y brenin prydferthwch Esther, dywedon wrthi am ddod i’r palas.

Priododd Esther y brenin.



Roedd Haman yn meddwl ei fod yn bwysig iawn. Gwnaeth deddf bod rhaid i bawb blygu lawr iddo ef.

Gwrthododd Mordecai i blygu lawr. Byddai dim ond yn plygu lawr i Dduw.

Roedd Haman yn wallgof. Gofynnodd am ganiatâd y brenin i lofruddio’r bobl Iddewig i gyd.








Pan glywodd Mordecai am gynllun drygionus Haman, anfonodd neges i Esther i’w gofyn i helpu.

Roedd Esther yn ofnus. Nid oedd Esther yn cael gweld y brenin unrhyw bryd oedd hi eisiau. Hefyd, nid oedd y brenin yn gwybod ei bod yn Iddew.

Gweddïodd Esther ac ymprydiodd am dri diwrnod. Wedyn aeth i weld y brenin.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## Pobi Hamantaschen

Crwst tair ochr yw Hamantaschen a chysylltiad gyda'r gwyliau Iddewig Purim, pan maent yn cofio sut oedd Duw wedi defnyddio Esther i achub y bobl Iddewig. Yn draddodiadol, maent yn edrych fel yr het tri chornel gwisgodd Haman, ac mae'r tri chornel yn cynrychioli "tadau" Iddewiaeth—Abraham, Isaac a Jacob.

Maent yn hawdd i'w gwneud, defnyddiwch dorrwr cylch, llenwch gyda'ch hoff lenwad (Jam, siocled, hadau pabi, a.y.b), plygwch a phobwch. Mae llwythi o ryseitiau ar y we, edrychwch am un fyddai'r plant yn caru a chewch hwyl yn pobi.





## Amser ar draws yr ystafell

Bydd y gêm yma mwy na thebyg yn cymryd cwpwl o droeon i'w gael yn gywir, ond mae'n wych i ddysgu plant meithrin am amser ac am gyflym yn erbyn araf.

Gofynnwch iddynt geisio cerdded neu redeg ar draws yr ystafell mewn x eiliad. Gallwch gyfri gyda nhw wrth iddynt gerdded neu gofynnwch i blant hyn gyfri'n uchel.

Y peth gorau yw os dywedwch 10 eiliad, byddent yn cyrraedd yr ochr arall pan rydych yn cyfri 10, nid 9 neu 11. Dywedwch wrthynt fod amseru Duw bob amser yn berffaith. Atgoffwch nhw am Esther 4:14.

## Pwy ydw i? – helpwyr

Helpwch eich plentyn i feddwl am bwy sy'n eu helpu. Rhowch ddisgrifiadau o bobl sy'n helpu, ac mae'n rhaid i'r plentyn ddyfalu pwy ydych yn disgrifio.


Er enghraifft: rydw i'n helpwr arbennig sy'n………..helpu mewn argyfwng. Dwi'n gyrru tryc mawr gydag ysgol. Dwi'n diffodd tannau……..


Atgoffwch y plant sut oedd Esther wedi helpu'r bobl Iddewig ac fel mae Duw bob amser yn ein helpu ni.




© 2025 truewaykids.com

# Triongl








Mae gan driongl __ ochr

Mae gan driongl __ cornel

Lliwiwch y trionglau




© 2025 truewaykids.com

# Dyfalwch y llun?













© 2025 truewaykids.com

I blant iau. Torrwch allan y lluniau a'u cael i gydweddu gyda'r llun mwy ar y tudalen blaenorol.






















© 2025 truewaykids.com

# Mae E am Esther



Lliwiwch bob cylch gydag E neu e

O V E h F b


E D M D e E

G g E b e B e

c A e D C D g

© 2025 truewaykids.com

# Lliwiwch gyda rhif




**1 - melyn** **3 – coch**

**2 - glas** **4 - gwyrdd**

© 2025 truewaykids.com

# Ffeindiwch 10 gwahaniaeth



© 2025 truewaykids.com

# Crëwr Sŵn


Mae'n draddodiad Iddewig eu bod ar Purim, wrth iddynt ddarllen y stori am Esther, mae'r plant yn ysgwyd crewyr sŵn un rhywbryd byddent yn clywed enw Haman. Gallwch ddefnyddio'r syniad yma gyda'r stori wythnos yma. Gwnewch y grefft yn gyntaf, ac wedyn dywedwch wrth y plant i wrando'n ofalus a gwneud sŵn pan maent yn clywed Haman.

## Pethau byddwch angen:

- 1 tiwb rholyn cegin
- Y tudalen templed
- 2 band elastig
- Papur pobi
- Pensiliau lliw
- Tâp gludo
- Reis, ffa pob neu gleiniau



## Beth i'w wneud:



Lliwiwch y templed.



Clymwch y papur pobi i un ochr o'r rholyn cegin gyda band elastig.




Llenwch y tiwb gyda reis, ffa pob neu gleiniau.



Caewch y tiwb trwy glymu'r papur pobi gyda band elastig i'r ochr agored.




Tapiwch y tudalen templed o gwmpas y tiwb.




Tapiwch y terfynau lawr i ffitio'r tiwb. (fel petaech yn lapio anrheg.)

© 2025 truewaykids.com



Gludwch fan yma - Templed Crefft - © 2025 truewaykids.com - Gludwch fan yma - Templed Crefft


# Crefft Coron



1. Lliwiwch dudalen templed y goron.
2. Torrwch allan y darnau.
3. Gludwch neu tapiwch fandiau ar y rhan flaen o’r goron.
4. Mesurwch i’r maint iawn a thapiwch i’w le.

© 2025 truewaykids.com


# Esther



© 2025 truewaykids.com



© 2025 truewaykids.com



© 2025 truewaykids.com



© 2025 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Be bold, Be strong

https://youtu.be/zRvCUz6KFB4

## Strong and Courageous

https://youtu.be/t34ajxa7TCI

## I Won't Be Afraid

https://youtu.be/YhAH2zU8UiU



# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw Ei fod bob amser yn edrych dros Ei bobl.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i fod yn ddewr ac ufuddhau Iddo.

# Wythnos Nesaf:

Job

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2025 truewaykids.com